

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu
Corfforaethol

Dyddiad: 23 Ionawr 2015

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 28 IONAWR 2015** am **9.30** am yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2014.

5 ADRODDIAD AGGCC (Tudalennau 17 - 42)

Ystyried adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol (copi ynghlwm) sy'n nodi'r materion allweddol sy'n codi o werthusiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn 2013-14.

6 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16 – 2016/17 (Tudalennau 43 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi wedi'i amgáu) sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16.

7 Y DIWEDDARAF AR GAFFAEL GWASANAETHAU ADEILADU
(Tudalennau 67 - 88)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro (copi ynghlwm) sy'n nodi manylion cynnydd gwaith dilynol diweddaraf Archwilio Mewnol mewn perthynas â Chaffael Gwasanaethau Adeiladu.

8 ADRODDIADAU RHEOLI TRYSORLYS (Tudalennau 89 - 120)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi ynghlwm) sy'n cynnwys Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2014/15, Dangosyddion Darbodus 2015/16 a Diweddariad 2014/15.

9 ADOLYGIAD HAMDDEN CLWYD

Derbyn adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol mewn perthynas â Hamdden Clwyd.

10 RHEOLAETH ARIANNOL YSGOLION

Derbyn adroddiad llafar gan Reolwr Cynllunio Addysg ac Adnoddau ar reolaeth ariannol ysgolion.

11 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Derbyn adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd M.L. Holland.

12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
(Tudalennau 121 - 122)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Joan Butterfield
Stuart Davies
Peter Duffy

Martyn Holland
Gwyneth Kensler
Jason McLellan

Aelod Lleyg

Paul Whitham

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

Llofnod

Dyddiad

Code of Conduct for Members

DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

I, *(name)*

a *member/co-opted member of

*(*please delete as appropriate)*

Denbighshire County Council

CONFIRM that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-

*(*please delete as appropriate)*

Date of Disclosure:

Committee *(please specify)*:

Agenda Item No.

Subject Matter:

Nature of Interest:

Signed

Date

PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 17 Rhagfyr 2014 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Stuart Davies, Gwyneth Kensler, Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr Paul Whitham (Aelod Lleyg).

Mynychodd y Cyngorwyr M.Ll. Davies a J. Thompson-Hill fel arsylwyr.

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR), Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau (RU), Prif Gyfrifydd (RW), Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal (RM), Cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru (GB ac AV) a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Joan Butterfield a/ac Martyn Holland.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Eitem 5 ar y Rhaglen: Proses y Gyllideb 2016/16 – Datganodd y Cyngorwyr S. A. Davies gysylltiad personol oherwydd bod ei wraig yn aelod o staff Cyngor Sir Ddinbych.

Eitem 11 ar y Rhaglen: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol – Datganodd y Cyngorwyr G. M. Kensler a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg) gysylltiad personol oherwydd eu bod yn derbyn Pensiwn Llywodraeth Leol.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw eitem y dylid, ym marn y Cadeirydd, ei hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2014.

PENDERFYNWYD – y dylid derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

5 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16

Roedd adroddiad, ac atodiad cyfrinachol, gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau, a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb referniw ar gyfer 2015/16, wedi ei ddsbarthu eisoes.

Eglurodd y Cyngorydd J. Thompson-Hill bod proses y gyllideb wedi symud at ddiwedd yr ail gam. Roedd Atodiad 1 yn dangos y darlun o broses y gyllideb, er gwybodaeth, ac roedd tabl o ddigwyddiadau allweddol yn y broses wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Roedd strategaeth gyllidebol y cyngor wedi nodi bwch cyllidebol o hyd at £18 miliwn dros ddwy flynedd yn flaenorol. Cafodd hyn ei lywio'n bennaf gan arwyddion y byddai setliad cyllido'r Cyngor yn cael ei dorri o 4.5%. Mae'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro yn dangos y byddai'r gostyngiad arian parod yn 3.7%, sy'n cyfateb i £5.3 miliwn. Gyda'r costau y mae'n rhaid i'r cyngor eu hariannu, fel cynnydd mewn cyflog, pensiynau ac ynni, mae bwch y gyllideb ar gyfer 2015/16 bellach yn oddeutu £8.3 miliwn a disgwylir y bydd yn oddeutu £8.8 miliwn yn 2016/17 – cyfanswm o £17.1 miliwn.

Mae dadansoddiad o'r symudiadau mewn rhagdybiaethau rhwng mis Medi a diwedd mis Tachwedd wedi ei gynnwys yn Atodiad 2. Mae'n amlinellu effaith y newidiadau yn sgil y Setliad Dros Dro, gan gynnwys effaith trosglwyddo grantiau i mewn ac allan o'r Setliad, ac yn dangos y symudiad mewn rhagdybiaethau pwysau cost yn ystod y cyfnod. Bydd y rhagdybiaethau yn newid yn rheolaidd ac fe ddangosir hyn yn y symudiad dros y tri mis diwethaf sy'n cynnwys rhagdybiaethau ar gyfer costau straen pensiwn, ardoll y gwasanaeth tân a chodiad cyflog. Mae Atodiad 3 yn dangos tablau o'r Setliad Dros Dro i dynnu sylw at y canlynol:-

- Mae Tabl 1 yn dangos y sylfaen a addaswyd gyda gostyngiad o 3.7%.
- Mae Tabl 2 yn dangos sut yr addaswyd y sylfaen gan drosglwyddiadau i mewn ac allan o'r Setliad.
- Mae Tabl 3 yn dangos trosglwyddiadau pellach wedi eu cynnwys yn y Setliad ond heb eu hariannu'n benodol.
- Mae Tabl 4 yn dangos rhestr o'r grantiau rhwng 2014/15 a 2015/16.

Mae Tabl 4 yn tynnu sylw at y mater ynghylch y Gronfa Gofal Canolraddol a'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol. Sefydlwyd y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol yn 2013/14 fel grant 3 blynedd i ariannu prosiectau cydweithio rhanbarthol ac roedd cyfanswm o £10 miliwn ar gael ar draws Cymru. Yn 2014/15, dargyfeiriwyd hanner y gronfa i gronfa gwerth £50 miliwn (y Gronfa Gofal Canolraddol) i hybu gwell integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd setliad dros dro yn dangos diwedd y Gronfa Gofal Canolraddol ond roedd yn cynnwys oddeutu £5 miliwn o arian y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol a oedd yn ariannu nifer o brosiectau sydd â blwyddyn arall ar ôl.

Mae'r setliad terfynol ar gyfer 2015/16 wedi ei gyhoeddi ddechrau mis Rhagfyr. Bydd ail gam proses y gyllideb yn dod i ben gyda chyflwyno cynigion i'r Cyngor ym mis Rhagfyr. Cyfanswm y cynigion yw £3.6 miliwn yn 2015/16 ac £1.8 miliwn yn 2016/17, a gyda'r cynigion a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Medi, bydd cyfanswm yr holl gynigion yn dod i £7.3 miliwn yn 2015/16 a £2.7 miliwn yn 2016/17.

Byddai Cam 3 proses y gyllideb yn ystyried y cynigion terfynol i gydbwysu cyllideb 2015/16, gan gynnwys opsiynau ar gyfer Treth y Cyngor a defnyddio unrhyw gronfa wrth gefn. Mae'r materion hyn wedi eu trafod yng ngweithdy'r aelodau ar 12 Rhagfyr cyn i'r gyllideb gael ei chymeradwyo'n derfynol ym mis Chwefror. Byddai Cam 3 o'r broses hefyd yn parhau i ddatblygu opsiynau arbedion ar gyfer 2016/17. Roedd yr adroddiad i'r Cyngor ar 9 Rhagfyr wedi amlygu proses ymgynghori sylweddol ac mae'r manylion llawn wedi eu crynhoi yn yr adroddiad. Cyfeiriodd y Cadeirydd at faterion a godwyd ynglŷn â gwybodaeth yn ymwneud â'r broses o ryddid a hyblygrwydd, a'r ymateb a gafwyd y gallai Aelodau ofyn cwestiynau pellach y gellid eu harchwilio yng Ngweithdai'r Gyllideb.

Esboniodd Mr P. Whitham y nodwyd yn flaenorol mai cyllid oedd y risg pwysicaf sy'n wynebu'r Cyngor, ac roedd yn teimlo bod tri risg penodol allweddol ym Mhroses y Gyllideb y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol dderbyn sicrwydd yn eu cylch, sef:-

- risgiau o wanhau neu gael gwared ar reolaethau wrth i adnoddau leihau, gan arwain o bosibl at fwy o risg Llywodraethu;
- mewn achos o ddiswyddiadau, y risgiau o fethu gwireddu arbedion ariannol yn 2016/17 o ganlyniad i beidio â gwneud penderfyniadau rŵan;
- risgiau arloesi fel risgiau i gaffael pethau'n allanol a mewnol, os nad yw amodau a thelerau contractau ymlaen llaw, agweddau cychwynnol o reoli contractau yn cael eu rheoli'n iawn.

Awgrymodd Mr Whitham y gellir cyfeirio at y tri risg penodol, a'r sicrwydd yn eu cylch, yn yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor am Broses y Gyllideb. Eglurodd y Cadeirydd fod y meysydd a nodwyd wedi eu cyfeirio atynt yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella Llywodraethu. Cyfeiriodd y Prif Gyfrifydd at broffil risg cyffredinol y Cyngor a gwelededd uchel y broses a fabwysiadwyd gyda phob cam yn cael ei archwilio a'i adolygu. Cadarnhawyd bod bwriad i adnabod y rhan fwyaf o'r arbedion ar gyfer 2016/17 erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2015/16.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod y Prif Weithredwr yn dymuno mabwysiadu dull strategol o fonitro gweithrediad cyffredinol y toriadau a'r arbedion. Byddai dull rhaglen yn defnyddio Verto yn cael ei fabwysiadu er mwyn tracio cynnydd pob cynnig unigol. Byddai hefyd yn cynnwys trosolwg o sut mae'r Cyngor yn cyfathrebu â'r cyhoedd, gyda'r risgiau yn cael eu rheoli'n weithredol. Ar hyn o bryd mae Adnoddau Dynol yn cynhyrchu map o gynigion sy'n ymwneud â materion staffio.

Cadarnhaodd Pennaeth Archwilio Mewnol fod gwaith yn cael ei wneud ar reoli perthynas y Cyngor â chyrff allanol, ac eglurodd y Prif Gyfrifydd fod y Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi gofyn am adolygiad ar ôl cwblhau'r gyllideb.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd G. M. Kensler ynghylch unrhyw effaith ariannol ar y Cyngor yn sgil Diwygio Llywodraeth Leol, eglurodd y Cadeirydd mai dim ond Sir Ddinbych hyd yma sydd wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb. Dywedodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill y byddai gwaith y Cyngor yn parhau, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r materion gyllidebol presennol, hyd nes bydd penderfyniad ffurfiol wedi ei wneud. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai busnes y Cyngor yn datblygu yn ôl yr arfer yn ystod y tair blynedd nesaf gan ganolbwyntio ar broses y gyllideb. Amlinellodd y Prif Gyfrifydd rôl y Pwyllgor mewn perthynas â Diwygio Llywodraeth Leol, a'r gwaith y gellid ei wneud gyda Chonwy mewn perthynas â chynhyrchu Cynllun Busnes.

Eglurodd y Cadeirydd fod ei awgrym yng nghyfarfod y Cyngor, 'bod Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb Proses y Gyllideb hefyd yn cynnwys effaith y toriadau yn y gyllideb ar bobl ar incwm isel', wedi cael derbyniad da gan y Prif Weithredwr. Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad yn amodol ar y sylwadau sydd wedi eu gwneud.

(RW i weithredu)

6 ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O GYNLLUNIO ARIANNOL

Derbyn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Asesiad Cynllunio Ariannol Sir Ddinbych (copi ynghlwm).

Cyflwynodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad terfynol Swyddfa Archwilio Cymru ar gynllunio ariannol Sir Ddinbych (copi ynghlwm) a darparwyd crynodeb o'r canfyddiadau allweddol canlynol:-

- Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffyg uniongyrchol.
- Mae gan y Cyngor hanes da o ran cyflawni arbedion a nodwyd o fewn blwyddyn yn erbyn y camau gweithredu a gymeradwywyd.
- Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor yn y dyfodol i sicrhau arbedion yn addas i'r diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol.
- Nid oes cynigion nac argymhellion yn sgil yr adolygiad hwn.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod yr adroddiad wedi ei roi ar wefan y Cyngor, a chytunwyd gyda'r awgrym y dylai'r ddogfen fod yn destun datganiad i'r wasg ac y dylid rhoi gwybod i'r Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd. Eglurodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'r broses ymgysylltu a fabwysiadwyd o ran y wasg yn fater i'r cynghorau perthnasol ei ystyried, a chadarnhaodd bod Sir Ddinbych, o ran cydymffurfio, wedi bodloni'r gofynion disgwylidig.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd S. A. Davies, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fod Sir Ddinbych wedi fframio ei ymarfer gyda'r cyhoedd yn ofalus drwy gynnal proses ymgysylltu, lle gofynnwyd am eu barn ynghylch effaith y cynigion, yn hytrach na

chynnal proses ymgynghori. Cadarnhaodd y byddai'n rhaid i Aelodau Etholedig wneud dewisiadau.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-

(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru,
(b) yn sicrhau y rhoddir gwybod i'r Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd y dylai'r ddogfen yn eu barn hwy fod yn destun datganiad i'r wasg.
(GW i Weithredu)

7 CAFFAEL GWASANAETHAU ADEILADU - DIWEDDARIAD

Roedd adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn rhoi manylion gwaith dilynol diweddaraf Archwilio Mewnol mewn perthynas â Chaffael Gwasanaethau Adeiladu yn dilyn ei adroddiad cychwynol ym mis Hydref, 2013 ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mawrth, 2014, wedi ei gylchredeg yn flaenorol.

Cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu ym mis Hydref 2013 a oedd yn rhoi sgôr sicrwydd 'isel', gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwella. Daeth yr adolygiad i'r casgliad "bod cryn le i wella. Trwy ddatblygu ymagwedd strategol, mae potensial i wneud caffael gwaith adeiladu yn llawer mwy effeithlon drwy symleiddio prosesau a'u gwneud yn fwy cyson, gyda'r fantais o ddileu dyblygu."

Soniodd adroddiad mis Mawrth, 2014 Swyddfa Archwilio Cymru am waith cynnal a chadw adeiladau ysgolion, gan ddod i'r casgliad "bod angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau caffael presennol i sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos ei fod yn sicrhau gwerth am arian. Yn ogystal, nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i reolau gweithdrefn contract presennol."

Mae'r cynllun gweithredu dilynol, Atodiad 1, yn cynnwys 21 cam gweithredu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a chynlluniau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud ers yr adroddiad dilynol cyntaf ym mis Medi, 2014, dim ond wyth cam gweithredu sydd wedi eu gweithredu'n llawn, er bod pob un o'r camau gweithredu sy'n weddill ar y gweill. Bu cynnydd o ran datblygu strategaeth gaffael ddrafft a rheolau'r weithdrefn contractau, y mae'r ddau ohonynt yn effeithio ar weithredu nifer o gamau gwella eraill. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fod Rheolau'r Weithdrefn Contractau bellach wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor ac y byddant yn cael eu hymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Mynegodd Mr P. Whitham bryder ynghylch goblygiadau ariannol posibl i'r Cyngor drwy beidio â chael Strategaeth Gaffael o ran Adeiladu a Chaffael. Cyfeiriodd hefyd at arwyddocâd cyflwyno prosiectau o fewn y Cynllun Corfforaethol yn briodol.

Eglurodd y Prif Gyfrifydd fod trafodaethau wedi eu cynnal rhwng y Swyddog Caffael Strategol Dros Dro ac Adnoddau Dynol o ran sicrhau bod aelodau perthnasol o

staff, gydag unrhyw gyfrifoldeb caffael, yn mynychu sesiynau hyfforddi Rheolau'r Weithdrefn Contractau fesul gwasanaeth. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn ysgolion gyda rheolwyr cyllid, penaethiaid a chyrrff llywodraethu a fyddai'n ymgorffori rheolau'r weithdrefn contractau ac agweddau cyfathrebu perthnasol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S. A. Davies, cytunodd y swyddogion i ddarparu manylion am yr oedi a gafwyd oherwydd materion yn ymwneud â'r rheolwr prosiect, o ran Risg Rhif 3.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i gwestiwn gan Mr P. Whitham mewn perthynas â Risg Rhif 11 ac esboniodd fod y system Verto, a ddefnyddir i reoli prosiectau, wedi ei diweddarau i gynnwys cwestiynau ychwanegol y mae'n rhaid eu hateb cyn cael caniatâd i symud ymlaen i gam nesaf y broses.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd mynegodd y Pwyllgor beth pryder ynghylch lefel y cynnydd a gyflawnwyd gan ofyn am adroddiad pellach ym mis Ionawr, 2015. Cytunodd yr Aelodau y dylid gofyn i'r Swyddog Caffael Strategol Dros Dro fynychu'r cyfarfod er mwyn darparu manylion pellach.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-

(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys adroddiad dilynol Swyddfa Archwilio Cymru; ac yn

(b) gofyn am gael adroddiad pellach ym mis Ionawr, 2015, a gwahodd y Swyddog Caffael Strategol Dros Dro i fynychu'r cyfarfod.

(GW ac IB i Weithredu)

8 CYNLLUN GWELLA'R DREFN LYWODRAETHOL

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gwella Trefn Lywodraethol y Cyngor sy'n deillio o 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' y Cyngor 2013/14 – 'Sicrhau llywodraethu da a gwelliant parhaus', wedi ei gylchredeg yn flaenorol.

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am y cynnydd sy'n digwydd o ran rhoi'r gwahanol gamau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella Trefn Lywodraethol y Cyngor ar waith, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor drefn lywodraethol gadarn ac effeithiol ar waith. Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol, 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus', yn darparu hunanasesiad tryloyw a chytbwys o drefn lywodraethol y Cyngor, ac yn amlygu unrhyw wendid llywodraethu arwyddocaol ac unrhyw faes arall y mae angen ei wella.

Mae'r meysydd gwella wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol, a oedd yn cynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau, y swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu hynny ac amserlenni. Mae diweddariad ar gynnydd Cynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Nid yw hunanasesiad o'r 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol' wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol. Er nad yw'r hunanasesiad ei hun yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati, gyda phob un ohonynt yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r camau a nodwyd yn y cynllun wedi eu hymgynghori â nhw. Eglurodd, pe na bai Cynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol yn cael ei weithredu, byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:-

- adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

Cafwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau gan Mr P. Whitham:-

- Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai Cam 2 y datblygiad ar drosglwyddo swyddogaethau yn cynnwys y fframwaith rheoli'r berthynas â phartïon eraill. Byddai hyn yn cynnwys swyddogaeth gomisiynu gref a fyddai yn ei lle cyn i unrhyw swyddogaeth gael ei gaffael yn fewnol neu'n allanol.
- Eglurodd y Cadeirydd y bydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Chwefror, 2015.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G. M. Kensler, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraataidd y byddai'r Gweithgor Cyfansoddiad yn cyfarfod ym mis Ionawr, 2015 cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mynegodd y Cynghorydd S. A. Davies bryderon ynghylch cywirdeb cynnwys llyfryn y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol.

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

9 TALIAD ARIANNOL I RAI SY'N GADAEL GOFAL - DIWEDDARIAD

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gynnydd y Cynllun Gweithredu a gynhwysir yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal. Cylchredwyd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd, 2014 gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y farn a fynegwyd yn y cyfarfod blaenorol bod y pennawd gweithredu, nad oedd cyfarfod wedi ei gynnal rhwng y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal, wedi cael effaith andwyol ar rai o'r camau gweithredu eraill a nodwyd. Cytunodd y Pwyllgor y dylid

gwahodd Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a Rheolwr Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal i fynychu cyfarfod mis Rhagfyr, 2014 i esbonio'r diffyg cynnydd a rhoi sicrwydd bod y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ar ôl cysylltu ymhellach gydag Archwilio Mewnol, mai'r cyswllt priodol yw'r Gwasanaethau Caffael yn hytrach na Refeniw a Budd-daliadau. Roedd y prif feysydd o bryder yn ymwneud â:-

- Pwysigrwydd sicrhau bod system gadarn i fynd i'r afael â'r gwaith o reoli'r symiau mawr o arian parod a drinnir yn Ffordd Brighton, y Rhyl.
- Mae'r Gwasanaeth, o ganlyniad i benderfyniadau'r Llywodraeth a'r Llys, yn gweithredu fel asiantaeth fudd-daliadau ac mae angen archwilio sut i gyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol, a rhoi sylw i faterion a dimensiynau cysylltiedig eraill.
- Rôl y Cyngor fel rhiant corfforaethol i ddefnyddwyr gwasanaeth, a'r angen i edrych ar weithredu systemau addas ar gyfer y Cyngor a defnyddwyr gwasanaeth.

Eglurwyd bod y broses archwilio mewnol wedi ei sefydlu i roi cyfeiriad ac arweiniad wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu. Cadarnhawyd bod cynnydd wedi ei gyflawni ac amlygwyd y materion canlynol:-

- Anawsterau sy'n codi pan nad yw defnyddwyr gwasanaeth yn gallu rheoli eu harian eu hunain.
- Yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli'r broses fel asiantaeth fudd-daliadau a rhiant corfforaethol, i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn defnyddio eu cyllid dros gyfnod penodol o amser.
- Na fu fawr ddim effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r prosesau a ddefnyddiwyd wedi sicrhau bod gofynion ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau wedi cael sylw.
- Yr angen i sicrhau nad yw materion sy'n ymwneud â rheoli arian parod yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Crynhowyd y manylion yn ymwneud â rheoli llif arian ac archwilio modelau talu newydd.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â Refeniw a Budd-daliadau:-

- Cynnydd yn lefel y galw am arian parod a'r mesurau diogelu a ddefnyddir.
- Cydnabuwyd bod Tîm Gwasanaethau Plant yn sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diwallu.
- Arym i leihau taliadau arian parod lle bo'n bosibl, er mwyn lleihau'r posibilrwydd o dwyll a cham-drin.
- Yr angen i archwilio gweithgarwch caffael, cynnwys darparu tocynnau bws, sefydliadau elusennol ac ymgysylltiad trydydd sector arall.
- Pwysigrwydd sicrhau set gadarn o weithdrefnau a phrosesau wedi eu sefydlu ar gyfer dosbarthu arian parod.
- Cadarnhawyd nad yw arian parod yn cael ei ddarparu ar gyfer caffael nwyddau gwyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â darparu hyfforddiant rheolaeth ariannol, cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal at y rhaglen reoli arian a ddarperir gan Elusen Plant Barnardos. Amlinellodd hefyd y broses i fynd i'r

afael â'r camau gweithredu a amlygwyd a oedd yn cynnwys trafodaethau gyda'r Uwch Swyddog Caffael mewn perthynas â nwyddau gwyn, cardiau talu ymlaen llaw a thocynnau teithio.

Darparodd Rheolwr Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal grynodedb manwl o'r cynnydd a wnaed o ran Materion Risg 1, 2 a 3 yn y Cynllun Gweithredu. Eglurodd y Prif Gyfrifydd nad oedd unrhyw ateb perffaith ar gael a bod y camau a gymerwyd yn realistig o ystyried yr hyn sydd ar gael. Cytunodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth, 2015.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-

(a) yn derbyn ac yn nodi' camau gweithredu yn yr adroddiad, ac yn

(b) gofyn i'r Pennaeth Archwilio Mewnol gyflwyno adroddiad diweddar i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth, 2015.

(IB i Weithredu)

10 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Roedd y Cynghorydd M. L. Holland wedi ymddiheuro oherwydd salwch ac ni chyflwynwyd adroddiad.

11 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd eisoes) i'w ystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

28 Ionawr, 2015:-

- Oherwydd prinder amser gofynnodd yr Aelodau am adroddiad trosolwg ynglŷn â Diweddariad Adolygiad Hamdden Clwyd.
- Cynnwys adroddiad diweddar gan y Swyddog Caffael Strategol Dros Dro ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

26 Mawrth, 2014:-

- Adroddiad ar Adolygiad Hamdden Clwyd.
- Adroddiad ar weithgarwch Swyddfa Archwilio Cymru.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd S. A. Davies, cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Davies yn anfon gwybodaeth yn ymwneud â'r Cynllun Pensiwn at Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol erbyn 8 Ionawr, 2015. Yna byddai'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno er ystyriaeth Grŵp

Cadeiryddion ac Is-Grŵp Cadeiryddion Archwilio a'i chyflwyno wedyn, o bosibl, i'r Pwyllgor Archwilio priodol. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fod y Cynllun Pensiwn yn gynllun statudol. Fodd bynnag, gellir comisiynu adroddiad gwybodaeth sy'n cynnwys y manylion perthnasol i'w hystyried gan yr Aelodau. Eglurodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru mai Sir y Fflint yw Awdurdod Gweinyddol Cronfa Bensiwn Clwyd ac y byddai'n bwysig nodi'r strwythurau llywodraethu sydd yn eu lle. Cadarnhawyd y byddai unrhyw oblygiadau ar gyfer y Cynllun Pensiwn yn sgil Diwygio Llywodraeth Leol yn cael eu hystyried a'u cynnwys yn yr Achos Busnes.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.

| | |
|-----------------------------------|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 28 Ionawr 2015 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant/ Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Awdur yr Adroddiad: | Adroddiad Eglurhaol: Prif Reolwr - Cefnogi Busnes Adroddiad Gwerthuso: AGGCC |
| Teitl: | Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2012-13 AGGCC: Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych |

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn nodi'r materion allweddol sy'n deillio o werthusiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych am 2013-14. Mae copi o'r gwerthusiad llawn yn Atodiad I.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r gwerthusiad perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys meysydd cynnydd, meysydd i'w gwella a risg.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Argymhellir bod yr Aelodau yn ystyried y gwerthusiad AGGCC a'r adroddiad cynnydd cysylltiedig gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ystyried a oes angen unrhyw archwilio pellach. Mae'r Rheolwr Ardal ar gyfer AGGCC yn bwriadu mynychu'r cyfarfod er mwyn galluogi Aelodau i ofyn am eglurhad ar unrhyw elfen benodol o'r adroddiad gwerthuso AGGCC.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Bob blwyddyn mae AGGCC yn cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol. Mae'r gwerthusiad yn cwmpasu ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys: adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar berfformiad a chynlluniau ar gyfer gwella yn ei ardal awdurdod lleol; gwaith rheoleiddio'r AGGCC; a barn archwilwyr ac arolygwyr eraill. Mae'r gwerthusiad yn cael ei gymedroli i sicrhau dull cyson, tryloyw a chymesur.

- 4.2. Yn gryno, mae'r gwerthusiad o Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych wedi amlygu bod eglurder a ffocws yn yr adroddiad sy'n amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych ac yn arbennig:
- Mae tystiolaeth gref o gymryd ymagwedd strategol i ateb yr heriau demograffig
 - Mae'r Cyngor wedi gweithredu modelau arloesol o ymarfer a datblygu partneriaethau integredig
 - Mae archwilio cadarn yn enwedig drwy heriau gwasanaeth a gwrando ar farn pobl gan danseilio'r rhaglen moderneiddio
 - Ymrwymiad cryf a blaen gynllunio o ran yr iaith Gymraeg
 - Mae perfformiad y gwasanaeth yn gryf
- 4.3. Mae nifer o feysydd penodol i'w gwella wedi cael eu nodi yn yr adroddiad AGGCC. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd rhwng yr Uwch Dîm Rheoli a'r AGGCC yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Y meysydd ar gyfer camau dilynol gan AGGCC y flwyddyn nesaf yw:
- Effaith newidiadau i'r isadeiledd POVA (Amddiffyn Oedolion Diamddiffyn)
 - Sefydlu dull ymchwil trylwyr i ddal ac ymateb i farn plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
 - Gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- 4.4. Mae Atodiad II yn rhoi trosolwg o'r meysydd a nodir ar gyfer gwella yn y gwerthusiad perfformiad. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r cyngor yn ymateb i'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwella.
- 4.5. Mae'r ardaloedd y nodwyd fel bod angen gwelliant yn unol â hunanasesiad y Cyfarwyddwr ac wedi cael eu hymgorffori yn y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2014-15. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro yn ffurfiol bob chwarter gan y gwasanaethau, ac adroddir llawer o elfennau ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet gan eu bod yn ffurfio rhan o'r Cynllun Corfforaethol. Hefyd, mae gan bob gwasanaeth Her Perfformiad Gwasanaeth blynyddol sy'n archwilio cynnydd yn erbyn Cynlluniau Busnes Gwasanaethau.
- 4.6. Gwnaed cynnydd sylweddol yn erbyn y meysydd i'w gwella a amlygwyd yn yr adroddiad gwerthuso perfformiad 2011-12. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw cynnydd wedi bod mor sylweddol ag y rhagwelwyd mewn perthynas â pherfformiad sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'n bwysig tynnu sylw at y gwelliannau sylweddol sydd wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad gyda 100% o lwyddiant mewn meysydd allweddol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1. Roedd yr arolygiad yn rhoi safbwynt allanol o effeithiolrwydd y Cyngor o ran amddiffyn pobl ddi-amddiffyn a hyrwyddo eu hannibyniaeth (un o'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol). Mae'r gwerthusiad hefyd yn darparu persbectif ar raglenni ar gyfer moderneiddio ac addasu gwasanaethau gofal cymdeithasol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Mae ymateb y Gwasanaeth i gyflawni camau gwella wedi cael eu hintegreiddio yn y Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2014/2015 a 2015/16. Bydd darparu'r cynlluniau hyn yn cael ei reoli o fewn yr adnoddau ariannol presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

- 7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) oherwydd nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am benderfyniad a fydd yn arwain at unrhyw newid ar gyfer staff neu'r gymuned ehangach. Bydd AEC yn cael ei wneud ar flaenoriaethau unigol os ydynt angen i brosiectau ddechrau a/neu i benderfyniadau gael eu gwneud.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

- 8.1. Mae cyfarfodydd ymgysylltu yn cael eu cynnal gyda'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac AGGCC sy'n helpu i lywio'r gwerthusiad yn ogystal ag asesu cynnydd wrth gyflawni gwelliant. Mae'r AGGCC hefyd yn mynychu ac yn cyfrannu'n weithredol at yr Her Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer y ddau wasanaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. Mae camau i ymateb i'r camau gwella wedi cael eu hintegreiddio i mewn i'r Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2014-16 ac nid oes angen unrhyw adnoddau ychwanegol i'w darparu.

10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1. "Mae'r risg o adroddiadau negyddol gan reolyddion allanol" yn risg sydd wedi ei nodi ar y Cofrestr Risg Corfforaethol. Ar y cyfan, mae hwn yn adroddiad cadarnhaol iawn, ond bydd angen i'r cyngor i ymateb yn gadarnhaol i'r materion a godwyd yn yr adroddiad er mwyn sicrhau bod adroddiad 2014-15 yn parhau i fod yn gadarnhaol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1. Adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 1999 - Dyletswydd Gwerth Gorau i sicrhau gwelliannau parhaus.
- 11.2. Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 - dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.
- 11.3. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 - dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu gwasanaethau.

APPENDIX 1: CSSIW: Areas for Improvement – 2013/14 Evaluation Report

| Service | Area for Improvement | Action / Progress |
|--|--|--|
| <p>Adult & Business Services</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 21</p> | <p>Evaluating the quality of life and outcomes for people with learning disabilities living in the many supported living services.</p> | <p>Person Centred Planning (PCP) reviews are undertaken with service users across all settings within the learning disability service, including the individuals living in supported houses / community living. On an annual basis the findings from these reviews are summarised under the headings: what's working / what's not working / what's important for the future. These findings are evaluated and consideration is then given at the PCP Steering Group to how best to respond to some of the findings. In the past this has resulted in development of new services, learning lessons, and changing the way we deliver support.</p> <p>A social work post has now been established to specifically review the support delivered to individuals within supported living services with particular focus on delivering outcomes for individuals.</p> <p>We are currently reviewing the way in which we monitor and support the supported living arrangements with a view to being more outcome focused. The aim is for individuals to be enabled to progress as far as possible within the limits of their disability. To this end we are reviewing some of the monitoring roles currently in place with a view to becoming less bureaucratic and enabling staff to support individuals to achieve their outcomes.</p> |
| <p>Adult & Business Services</p> | <p>Increasing rates of assessment and support for carers.</p> | <p>Increasing the proportion of carers who are offered an assessment or review of their needs in their own right (from 89.4% in 2013/14) has been identified as a priority for improvement in our Service Plan for 2014/15. Performance for this measure should be at 100%, and we strongly believe that this is mainly a recoding issue (one which we are working to address). Some progress has been made, with the Quarter 2 figure standing at 91.5%, but further improvement is needed. This issue was discussed again in our Team Performance Challenge meetings in September 2014, and the following actions were agreed:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Team Managers to remind officers to check this element of PARIS before they authorise an assessment. 2. The MIS Team is now running monthly exceptions reports to identify which assessments need to be checked to see whether the offer has been accurately recorded on PARIS. |

| | | |
|--|---|--|
| | | <p>The % of carers who <u>had</u> an assessment or review of their needs in their own right has increased from 27% last year to 32% at Quarter 2 this year. If we exclude those who declined the offer of an assessment, the percentage increases to 83.5%, although it is again acknowledged that this still leaves room for improvement. The number of careers receiving an assessment increased from 230 at Q2 last year to 278 at Q2 this year (and increase of 21%).</p> <p>The % of carers who were assessed or reassessed who were provided with a service currently stands at 98.9% (at Quarter 2), and the number of carers provided with a service has increased from 196 at Q2 last year to 275 at Q2 this year (an increase of more than 40%).</p> |
| <p>Adult & Business Services</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 22</p> | <p>Following changes to leadership ensure that the PoVA process is operated in a timely, consistent and authoritative manner across the authority.</p> <p>Measuring the timeliness and consistency of the safeguarding approach across the authority in view of the recent introduction of local leadership for some POVA referrals.</p> <p>Impact of changes to staffing infrastructure for POVA in order to ensure that the safeguarding process is operated in a timely, consistent, authoritative manner across the authority</p> | <p>Monthly meetings are being held with locality Designated Lead Managers (i.e. team managers and senior practitioners) to discuss the role, share good practice and problem solve.</p> <p>A meeting has been arranged for 29/1/15 to discuss the content of the POVA level 6 training in order to target the areas identified via the POVA audits, and by the team managers and senior practitioners themselves.</p> <p>An audit of a sample of POVA cases is carried out on a quarterly basis to monitor compliance with the Wales Interim Policy and Procedure and ensure consistency of approach. Actions identified via audit are monitored via the monthly meetings with locality DLMs.</p> |

| | | |
|---|---|--|
| <p>Adult & Business Services</p> | <p>Increase the opportunities for people to use direct payments.</p> | <p>This is an again an area that has been identified as a priority for improvement by the service. A Commissioning Officer is currently developing an action plan to improve take-up of Direct Payments, Individual Service Funds etc., which will be brought to ABSLT for discussion before being adopted and implemented.</p> |
| <p>Children & Family Services</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 23</p> | <p>Defining a clear strategy and research process for listening to and capturing the experiences and outcomes for children and young people, especially around the recently re-shaped early intervention and children and families support services and in services to looked after children.</p> <p>Information provided by the council could be further enhanced through the use of mobile technology such as apps and with the preparation and publication of easy-read on-line versions being so that they are accessible to children but also to those who find reading difficult.</p> | <p>Early conversations have taken place with Glyndwr university with a view to strengthening the social care students research base (core business for the university but working in partnership with social care to maximise learning and development for both organisations). Consideration will be given to the potential for Denbighshire to become an established research organisation and support will be sought from the university to assist with key evaluation activities.</p> <p>It is also the intention to work closely, and reach an agreement with, Public Health Wales to integrate intelligence approaches within each organisation.</p> <p>A new project has been established in the service that is looking at how to improve the engagement of children, young people and families in our service delivery and how we can improve our processes for capturing, hearing and responding to their voice. Children, young people and families will be actively involved in this project and there will be an increased use of mobile technology and social media in our approach to engagement and involvement. This project is also linking very closely with a task group that has been set up by the Local Safeguarding Children's Board (LSCB) that is looking at strengthening the voice of children and young people in safeguarding processes and activities.</p> <p>The outcomes framework pilot will compliment this well with regards to a different conversation with children and families that is focussed on the identification and achievement of personal outcomes.</p> |
| <p>Children & Family Services</p> | <p>Being clear about the type of services families are signposted to if they do not meet the assessment threshold in order to access the Children and Family</p> | <p>Team Around the Family and the wider Families First programme is our primary source of support for those families that do not meet the threshold for the Service and there is a clear pathway for families in accordance with their fluctuating needs with a strong focus on supporting families to be independent and resilient and thus not dependent on statutory services.</p> <p>The new Children and Family Support Gateway is a key development that covers the</p> |

| | | |
|------------|---|---|
| | Service (only 10% of all assessed meet the threshold). | spectrum of need from information and advice through to child protection and children in care. The Gateway's further development will include improved signposting to Family Information Service and under the new Social Services and Wellbeing Act (2014) will become the Information, Advice and Assistance response which will automatically develop a more comprehensive knowledge base about the range of services. |
| Tudalen 24 | <p>Children & Family Services</p> <p>Evaluating the new intervention methods used and assessing the impact upon the quality of life for children and their families Outcomes for looked after children, in particular placement stability, access to primary health care and educational and employment opportunities.</p> <p>Increase the council's support to looked after children through employment and apprenticeship opportunities and information on rights and entitlements.</p> <p>Health, dental and educational outcomes for looked after children.</p> | <p>New arrangements have been put in place to increase the completion of health assessments and registration with health practitioners with the appointment of a full time nurse specifically for looked after children (LAC). The LAC nurse post had greatly assisted with the health checks aspect, as this post was less focussed on process and more focussed on improving outcomes for individual children. Performance improvements are now starting to show.</p> <p>The focus on personal education plans has seen an improvement in performance up to 100%.</p> <p>The pilot of the national outcomes framework will help to identify more personal outcomes for children in these areas and will be incorporated into practice.</p> <p>The focus of attention will now be on monitoring the effectiveness of the new arrangements and for ensuring there are robust arrangements in place within Health and Education in order to ensure that there the service is not solely reliant on one or two dedicated post holders.</p> <p>The availability of employment and apprenticeship opportunities across the Council/ County are explored as and when young people require placements and the 14+ team report that there is positive engagement from the range of Council services in providing options. Avenues and opportunities are continually explored through the Corporate Parenting Forum.</p> <p>A review of the impact of the waking hours family support service is to be undertaken as a priority in the 2015/16 business plan.</p> |
| | Children & Family Services | Improving placement stability for looked children. |
| | | Performance is monitored through an internal panel mechanism and we have sought to enhance that further to minimise placement moves that are not in line with the child's plan. The indicator is regularly monitored through the year to ensure we respond in a timely way to concerns. This is constantly monitored and the service will continue to provide narrative on planned and positive moves for young people and will continue to train foster |

| | | |
|--|--|--|
